# Y CYNGOR

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 13.00 ar 12 MAWRTH 2025, ym MedRus 4, Penbryn.**

Yn bresennol: Ms Meri Huws, Cadeirydd y Cyngor (Cadeirydd); yr Athro Jon Timmis, Is-Ganghellor; Dr Paul Bevan; yr Athro Sarah Davies; Ms Kate Eden; Ms Kylie Evans; yr Athro Simon Green; Ms Elain Gwynedd, Swyddog Diwylliant Cymreig a Llywydd UMCA; yr Athro Angela Hatton, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Cyfnewid Gwybodaeth ac Arloesi); Dr Aloysius Igboekwu; Mr Dan Richards; Ms Rhuanedd Richards; Mr Arwel Thomas; Mr Mark Tweed; Ms Jane Usherwood; Ms Claire Vaughan; Mr Bayanda Vundamina, Llywydd Undeb Aberystwyth ac Yusuf Ibrahim

Yn gweinyddu: Ms Julie Archer, Pennaeth Llywodraethu Dros Dro; Mr Simon Crick, Prif Swyddog Ariannol; yr Athro Anwen Jones, Dirprwy Is-Ganghellor (Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr) (ar gyfer cofnod 42); Mrs Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Mrs Sharon Lilley, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol; Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg; a Mr Steve Thomas, Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Chysylltiadau Allanol.

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

**33. MATERION A GODWYD GAN Y CADEIRYDD**

Nododd y Cadeirydd mai dyma fyddai cyfarfod olaf o'r Cyngor i Bayanda, gan ddiolch iddo am ei gyfraniad a dymuno'n dda iddo yn ei rôl newydd.

**34. GWRTHDARO BUDDIANNAU**

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w hystyried yn ystod y cyfarfod.

**35. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2024 (COU2425-056).

**PENDERFYNWYD**

Cadarnhau bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r hyn a drafodwyd.

**36. MATERION YN CODI O'R COFNODION**

DERBYNIWYD

Cofnod o'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Cyngor, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (COU2425-057).

Roedd y camau gweithredu a oedd i fod i gael eu cwblhau erbyn mis Hydref 2024 wedi'u cwblhau, ac maent wedi'u cofnodi yn y tabl 'camau caeëdig' er cyflawnder. Rhoddwyd diweddariad i'r aelodau ar y materion a oedd heb eu cyflawni.

NODWYD

Nododd yr aelodau'r diweddariadau am y camau gweithredu agored a chaeëdig a CHYTUNWYD ar yr argymhellion.

**37. GOHEBIAETH**

1. Llythyr oddi wrth Medr

DERBYNIWYD

Llythyr oddi wrth Simon Pirotte, Prif Weithredwr Medr ynghylch yr Arolwg Cenedlaethol o Fyfyrwyr.

**38. PENDERFYNIADAU A WNAED RHWNG CYFARFODYDD**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU2425-059).

NODWYD

Manylai'r adroddiad ar yr adegau ers cyfarfod diwethaf y Cyngor lle y cafodd materion eu cymeradwyo gan y Cadeirydd ar ran y Cyngor.

**39. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Athro Jon Timmis, Is-Ganghellor (COU2425-060)

NODWYD

1. Roedd tair prif ran i'r adroddiad: adroddiad yn amlygu'r prif bwyntiau; adroddiad ar gynllunio a chofrestriadau myfyrwyr; ac adroddiad ynglŷn â chyfathrebu.

2. Gwnaeth yr aelodau longyfarch y staff am eu gwaith ymchwil a'u llwyddiannau.

3. O ran darpariaeth Deintyddiaeth, nodwyd, er bod cefnogaeth sylweddol, fel y nodwyd mewn dadl ddiweddar yn Senedd Cymru, nad oes cyllid ar gael oddi wrth Lywodraeth Cymru. Mae'r Brifysgol yn gobeithio rhyddhau datganiad ar y cyd â Phrifysgol Bangor i nodi ei bod yn uchelgais cynnig y ddarpariaeth yn y dyfodol, ond ar yr un pryd yn bod yn sensitif o ran y newidiadau sylweddol i staffio sy'n digwydd yn y ddwy brifysgol, ac ar draws y sector.

4. Rhoddwyd diweddariad ar sefyllfa Canolfan y Celfyddydau, a'r newidiadau staffio cysylltiedig. Mae'r Is-Ganghellor wedi cynnal trafodaethau â Phrif Weithredwr Cyngor y Celfyddydau ac wedi pwysleisio ymrwymiad y Brifysgol i'r celfyddydau. Yn rhan o'r adolygiad ar y gwasanaethau proffesiynol, mae rôl Cyfarwyddwr Canolfan y Celfyddydau

wedi'i dileu ac mae rôl newydd â chyfrifoldebau ehangach, gan gynnwys yr Hen Goleg, wedi'i sefydlu.

5. Nododd yr aelodau fod risg o gael cyhoeddusrwydd negyddol a'r effaith bosib ar enw da'r sefydliad. Nododd yr Aelodau hefyd fod hwn yn gyfle i ail-lunio'r rôl i ddarparu cyfle cyffrous i'r celfyddydau a'r sector diwylliannol yng Nghymru.

6. Nododd yr aelodau fod sawl newid ar lefel y Cyfarwyddwyr. Mae'r Prif Swyddog Digidol bellach wrth yr awenau; mae Pennaeth Dros Dro ar Ystadau bron â'i gadarnhau; mae swydd y Cyfarwyddwr Marchnata yn destun trafod ar hyn o bryd. Mae Helen Eustace, Pennaeth Cynllunio, wedi camu i'r adwy i reoli'r uwch dîm Marchnata a Denu Myfyrwyr yn y cyfamser.

7. Mae seiberddiogelwch yn flaenoriaeth allweddol i'r Brifysgol. Roedd angen i'r camau lliniaru fod yn gryfach ar y gofrestr risg; byddai hynny'n orchwyl i'r Prif Swyddog Digidol.

**PENDERFYNWYD**

8. Nodi'r adroddiad.

## 40. ADRODDIAD GAN UNDEB ABERYSTWYTH

DERBYNIWYD

Adrodd gan Lywydd Undeb Aberystwyth, Bayanda Vundamina (COU2425-061) ac Elain Gwynedd, Swyddog Diwylliant Cymru a Llywydd UMCA.

NODWYD

1. bod etholiadau'r Undeb newydd orffen, a bod y gyfradd bleidleisio o bosib yr un uchaf yn y wlad. Y gyfradd bleidleisio eleni oedd 35%, cynnydd o'r 21% a bleidleisiodd y llynedd.

2. Ar sail y cyllid, ac ar faint ac anghenion y corff o fyfyrwyr, roedd ymgynghoriad wedi'i gynnal ar leihau nifer y swyddogion sabothol o 5 i 4. Cytunwyd ar hyn yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr Undeb ym mis Mawrth a bydd yn dod i rym o fis Gorffennaf 2026.

3. Llywyddion fydd y pedwar swyddog sabothol i gyd, gan arddel y teitl Cymraeg 'Llywydd':

- Llywydd UMCA
- Llywydd Academaidd
- Llywydd Cyfleoedd
- Llywydd Lles a Rhyddid

Cynigir y byddai'r swyddog a etholir yn Gadeirydd i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr yn dod yn aelod o'r Cyngor, yn cynrychioli corff y myfyrwyr. Nododd yr Aelodau bwysigrwydd llais Cymreig ar y Cyngor. Adroddwyd mai'r disgwyliad oedd mai Llywydd UMCA fyddai'r ail aelod ar y Cyngor ochr yn ochr â Chadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr. **[GWEITHREDU:** Bydd Ysgrifennydd y Brifysgol yn edrych ar y Cylch Gorchwyl i weld sut i fwrw ymlaen ar hyn].

4. Roedd yr Undeb wedi llwyddo i wneud yr arbedion roedd y Brifysgol wedi gofyn amdanynt, ac wedi llwyddo i barhau â'r gweithgareddau craidd ar ôl lleihau ei staff.

Mae ceisiadau am gyllid grant wedi bod yn llwyddiannus, a bydd y gweithgarwch hwn yn parhau yn y dyfodol. Er hynny, mae pryder am gynaliadwyedd hirdymor y gweithgareddau craidd sy'n cefnogi'r myfyrwyr.

UMCA

5. Cynhaliwyd yr Eisteddfod Ryng-golegol yn Aberystwyth, gyda £6,000 o gyllid wedi'i sicrhau. Aberystwyth enillodd, a hynny am yr ail flwyddyn yn olynol.

6. Roedd swydd Swyddog Diwylliant Cymreig a Llywydd UMCA wedi bod yn rhan o'r adolygiad o swyddogion. Cafwyd sylw yn y cyfryngau ynglŷn â phwysigrwydd Llywydd UMCA. Yn unol â'r hyn y cytunwyd arno yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol yr Undeb, mae'r rôl yn parhau, a 'Llywydd UMCA' fydd y teitl yn y ddwy iaith.

7. Nodwyd bod y cydweithredu agos rhwng yr Undeb ac UMCA wedi bod yn gaffaeliad i'r Cyngor. Mater i'r Undeb yw cynrychiolaeth y myfyrwyr, ond nodwyd bod yr ymagwedd ddwyieithog wedi cyfoethogi trafodaethau a phenderfyniadau'r Cyngor.

8. Gwnaeth yr aelodau longyfarch UMCA am y profiad cadarnhaol a gafodd sylw yn y cyfryngau ynghylch y 'Ryng-gol'.

9. Nododd yr aelodau fod tuedd ar y lawr yn ymatebion y myfyrwyr am hapusrwydd ac iechyd yng nghwestiynau monitro blynyddol yr Undeb. Nodwyd y gallai meincnodi fod yn ddefnyddiol wrth geisio ymdrin â'r duedd hon i lawr.

**PENDERFYNWYD**

10. Nodi'r adroddiad.

**41. MATERION ARIANNOL**

1. Diweddariad am y Cyfrifon Rheoli

DERBYNIWYD

Adroddiad ariannol am yr ail chwarter gan Rhian Linehan, Partner Busnes Cyllid a Stephen Harrison, Partner Busnes Cyllid (COU2324-032).

NODWYD

1. Mae'r ffigyrau'n dangos gwarged bach i chwe mis cyntaf y flwyddyn. Mae'r ffigurau i'r flwyddyn hyd yn hyn £1m-£1.5 ar y blaen, fel y mae'r sefyllfa arian parod. Disgwylir y bydd cynnydd yn y diwrnodau arian parod erbyn diwedd y flwyddyn. Mae gwell prosesau casglu dyledion yn helpu'r sefyllfa arian parod.

2. Wrth edrych tua'r dyfodol, o ran y gwahanol gategorïau o fyfyrwyr, mae diffyg yn y niferoedd o'u cymharu â'r hyn oedd yn y rhagolwg, gan arwain at £5.5m o fwlch yn y cyllid o'i gymharu â'r cynllun.

3. Cynigiodd Aelodau fod papur yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad a'r Cyngor – gan nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawni'r gwarged y cytunwyd arno ac yn gosod cynllun ariannol ar sut y cyrhaeddwn warged yn y gyllideb yn y flwyddyn ganlynol.
**[GWEITHREDU:** y Prif Swyddog Ariannol]

4. Mae'r rheolaethau llym ar benodi staff a'r swyddi sydd wedi'u gadael yn wag yn cael effaith gadarnhaol ar y sefyllfa ariannol. Gofynnodd aelodau sut mae'r Brifysgol yn monitro effaith hynny ar y ddarpariaeth, ansawdd y gwasanaeth, ac ar les pobl. Cadarnhaodd y swyddogion fod swyddi gwag yn cael eu hadolygu bob wythnos a bod y partneriaid busnes yn gweithio gyda'r adrannau i edrych ar ffyrdd o liniaru anawsterau, megis symud pobl mewn ymateb i lwythau gwaith uchel neu adegau pan fo'r gwaith ar ei drymaf.

5. Nodwyd bod adennill dyledion wedi gwella trwy dargedu'r dyledion hynny sy'n hawdd mynd i'r afael â hwy. O ran y ddyled sy'n weddill canolbwyntir ar ddod o hyd i broblemau systemig ac ar newid ein prosesau yng ngoleuni hynny. Mae dyledion llai eu gwerth yn gysylltiedig â ffioedd ailsefyll asesiadau, felly mae'r broses wedi'i newid fel bod rhaid talu ymlaen llaw.

6. Gostyngwyd y rhagolygon am ddiffyg ariannol y fferm gan fod prisiau am gynnyrch llaeth wedi cynyddu ers mis Hydref 2024. Gofynnodd aelodau am sicrwydd na fydd y Brifysgol mewn sefyllfa debyg y flwyddyn nesaf. Nododd swyddogion fod risg busnes ynghlwm wrth weithgaredd masnachu, felly mae gwaith yn mynd rhagddo i edrych ar y model busnes a lleihau'r risg. Mae gwelliannau yn cael eu rhoi ar waith i'r prosesau er mwyn gwella'r llinell waelod. Nodwyd hefyd mai canolfan addysg ac ymchwil ydyw, nid menter fasnachol. Mae hyn yn berthnasol i gwestiynau ynglŷn â'r hyn a geir ar ystâd y Brifysgol, sut y'i defnyddir ac i ba ddiben, a pha gostau yr ydym yn barod i'w goddef mewn cysylltiad â gweithgareddau o'r fath. Nododd aelodau fod angen wybodaeth gliriach am gostau cyrsiau penodol.

**PENDERFYNWYD**

7. Nodwyd yr adroddiad gan yr aelodau.

2. <u>Adroddiad Cynaliadwyedd Blynyddol</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Mr Simon Crick, y Prif Swyddog Ariannol (COU2425-063).

NODWYD

1. Mae'r Brifysgol yn cyfarfod bob mis â swyddogion Medr. Cydnabuwyd yn y cyfarfodydd hynny fod lefel uchel o risg yn cael ei chynnal gan y Brifysgol yn ei chyllideb i 2024/25, a chytunwyd y dylid gohirio'r rhagolwg cynaliadwyedd blynyddol. Wedi hynny, wrth i niferoedd y myfyrwyr ddod yn agos i'r hyn a gafwyd yn y gyllideb ac o ystyried y cynnydd da tuag at gyrraedd targedau'r arbedion, mae Medr bellach wedi gofyn i'r wybodaeth hon gael ei chyflwyno.

2. Nodwyd bod rhywfaint o risg ar hyn o bryd yng nghyd-destun y rhagolwg ar ddenu myfyrwyr ar gyfer 2025/26. Mae'r ffigurau yn yr adroddiad yn tybio nad yw'r risgiau

hyn yn cael eu gwireddu, neu fod camau'n cael eu rhoi ar waith i fynd i'r afael â nhw. Bydd Gweithrediaeth y Brifysgol yn penderfynu yn ddiweddarach yn y gwanwyn ynghylch a fydd angen newid y rhagdybiaethau.

**PENDERFYNWYD**

3. Cymeradwywyd yr Adroddiad Cynaliadwyedd Blynyddol gan yr aelodau.

3. <u>Y Gofrestr Risg Gorfforaethol</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Helen Eustace, Pennaeth Cynllunio, a Dr Sarah Taylor, Pennaeth Datblygu Strategol (COU2425-063).

NODWYD

1. Bod yr adroddiad, sy'n tynnu sylw at y prif risgiau sy'n wynebu'r sefydliad, wedi bod gerbron Gweithrediaeth y Brifysgol, y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd, a'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad.

2. Mae gwaith wedi'i wneud i ail-lunio'r gofrestr risg: i ganolbwyntio ar nodau strategol, yn hytrach nag allbynnau; i sicrhau bod cofrestrau risg y Cyfadrannau a'r Adran yn cydweddu'n well â'r gofrestr honno; ac i ymgorffori'r adolygiad o gofrestrau risg yn y drefn lywodraethu newydd i sicrhau monitro, cydweithredu a chyfathrebu.

3. Ni chafodd y papur ei roi gerbron cyfarfod blaenorol y Cyngor gan nad oedd y gwaith arno wedi mynd rhagddo i'r graddau y byddai'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd wedi hoffi. Canolbwyntiodd trafodaeth y Pwyllgor hwnnw ar ail-lunio'r gofrestr ei hun, gydag ychydig iawn o drafodaeth ar risgiau unigol.

4. Nodwyd bod angen cael y fframwaith ar waith, ynghyd â'r diwylliant i allu ei ymgorffori, ond mae angen newid fel mai ar risg y bydd yn canolbwyntio ac fel y bydd yn rhaeadru i lawr trwy'r sefydliad i ganolbwyntio ar weithredu ac ar gamau lliniaru.

5. Dylai'r rhan fwyaf o risgiau fod ym meysydd y naw cynllun a'r Weithrediaeth. Y cynnig yw bod rheoli risg yn cael ei ail-lunio ar y sail honno. Dylai fod llinell glir o gyfrifoldebau risg ar lefel strwythurol, gyda llwybr clir drwodd i'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd ac i'r Cyngor, yn ogystal ag eglurder ar risgiau o safbwynt lefel weithredol.

6. Nodwyd nad yw'r gofrestr risg yn adlewyrchu'n llawn eto bryderon Gweithrediaeth y Brifysgol. Mae hefyd rhywfaint o waith i'w wneud i ddatblygu risgiau o safbwynt pobl a diwylliant.

7. Nodwyd bod y parodrwydd i dderbyn risg yn wahanol i'r risgiau gwirioneddol. Nododd yr Aelodau nad yw'r camau rheoli presennol yn cael unrhyw effaith, ac nad oes digon o gamau gweithredu i sicrhau bod risgiau yn cael eu rheoli.

**PENDERFYNWYD**

8. Gofyn i Swyddogion, trwy law’r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd yn y lle cyntaf, ddod â chynnig terfynol gerbron y Cyngor i'w gymeradwyo ym mis Gorffennaf. Dylai'r Cyngor wedyn benderfynu a ddylai'r is-bwyllgorau fod yn gyfrifol am graffu ar y risgiau perthnasol o fewn eu cylch gorchwyl, gan nodi mai’r Pwyllgor sy’n gyfrifol am drefniadau rheoli risg.

9. Gofyn i'r Weithrediaeth ddod â phecyn, yn cynnwys y parodrwydd i dderbyn risg, datganiad risg, a sut mae’n cydweddu â strategaeth newydd y Brifysgol, gerbron y Cyngor yn ei gyfarfod ym mis Gorffennaf.

4. <u>Ffioedd Myfyrwyr</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Sue Clark, Swyddog Datblygu Busnes, a Helen Eustace, Pennaeth Cynllunio (COU2425-064).

NODWYD

1. Yn y dyfodol, bydd trefn gosod y ffioedd yn cael ei halinio mewn un broses flynyddol. Bydd hyn yn darparu proses fwy effeithlon a chadarn, a golwg fwy cyflawn i ni o safbwynt rheoli a gwneud y mwyaf o'n marchnad. Croesawodd y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad y cynnig a diolchodd i’r Cyfarwyddwr Cynllunio am ddarparu cyd-destun a gwybodaeth ychwanegol.

2. Roedd swyddogion wedi nodi pwysigrwydd cadw hyblygrwydd o ran ffioedd y Ganolfan Saesneg Ryngwladol a'r gallu i’w haddasu ar sail anghenion penodol yn y farchnad ryngwladol.

**PENDERFYNWYD**

3. Cymeradwyodd yr aelodau'r fethodoleg newydd at osod ffioedd, a lefelau’r ffioedd ar gyfer y prif ffioedd heb eu rheoleiddio, ac ar gyfer ffioedd y Ganolfan Saesneg. Cymeradwyodd yr Aelodau hefyd osod y ffioedd llety o fewn yr un amserlen â’r ffioedd dysgu.

5. <u>FAA Chawton House</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Mr Simon Crick, y Prif Swyddog Ariannol (COU2425-066).

NODWYD

1. Mae'r papur wedi cael ei ystyried gan y Weithrediaeth a'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad ac mae'n ymdrechu i ddatrys mater o risg ariannol hanesyddol y cafodd y Prif Swyddog Ariannol wybod amdano yn ystod proses llunio cyfrifon 2022/23. Cynhaliwyd sgyrsiau â'r partïon perthnasol er mwyn dod i gytundeb ar sut i reoli'r risg hon. Mae'r papur hwn yn gofyn am gefnogaeth i'r cynllun hwnnw trwy gytundeb cyfreithiol.

2. Gofynnodd aelodau a oedd gan y Brifysgol dystiolaeth i gefnogi'r honiad mai hi yw gwarantwr y cytundeb presennol. Cadarnhaodd swyddogion fod y Cyngor

wedi cymeradwyo'r cam gweithredu, ond nid oes copi o'r weithred wedi'i lofnodi ar gael ar hyn o bryd. Mae USS wedi cadarnhau eu safbwynt.

3. Roedd y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad wedi cael trafodaeth eang ac, o ystyried sefyllfa gwarged y cynllun pensiwn, a’r amser a’r adnoddau sydd eisoes wedi'u treulio, a'r swm cymharol fach a danysgrifiwyd, roedd yn fodlon argymell bod y Cyngor yn cymeradwyo'r cynnig i ymrwymo i'r weithred i warantu dyled y pensiwn CHL pe bai byth yn codi.

4. Gofynnodd aelodau a oedd y swyddogion yn ymwybodol am unrhyw faterion eraill tebyg y dylid tynnu sylw'r Cyngor atynt. Cadarnhaodd y swyddogion eu bod yn gofyn i’r USS am gadarnhad nad oes enghreifftiau eraill nac achosion unigol hanesyddol.

5. Nododd aelodau nad oedd y cytundeb gwreiddiol yn arfer da, a bod problemau â'r prosesau llywodraethu ar y pryd.

6. Nododd aelodau fod y Brifysgol ei hun yn elusen, gan gwestiynu a fyddai ymrwymo i gytundeb o'r fath yn gallu cael ei gyfrif fel camddefnyddio ei hamcan elusennol. Nododd aelodau eu bod yn dymuno i’r swyddogion gael cyngor cyfreithiol am lefel y risg ac am allu'r Brifysgol i ymrwymo i gytundeb o'r fath.

**PENDERFYNWYD**

7. Bod Gweithrediaeth y Brifysgol yn dod â rhagor o wybodaeth i'r Cyngor, trwy’r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad, ar ôl cael cyngor cyfreithiol.

6. <u>Penodi Archwilwyr Allanol</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Matthew Clarke, Rheolwr Trethi a Buddsoddiadau (COU2425-067).

NODWYD

1. Yn sgil proses gaffael yn 2022, dyfarnwyd contract tair blynedd i KPMG o 1 Awst 2022 am wasanaethau Archwilio Allanol. Mae'r Brifysgol yn dod i flwyddyn olaf y cyfnod cychwynnol ond fe gaiff estyn y contract hwn am 2 flynedd arall (ar sail 1 flwyddyn dreigl) yn ôl ei disgresiwn ei hun.

2. Gofynnodd aelodau am y ffioedd sy'n ymwneud â Benthyciadau Ffederal yr Unol Daleithiau. Cadarnhaodd swyddogion fod Adran Addysg yr Unol Daleithiau yn mynnu bod prifysgolion sy'n prosesu benthyciadau i fyfyrwyr sy'n ymweld o'r Unol Daleithiau yn cael archwiliad blynyddol.

**PENDERFYNWYD**

3. Cymeradwyodd yr aelodau yr estyniad i KPMG weithredu fel yr archwilydd allanol o dan delerau'r contract presennol.

7. <u>Perfformiad y Gwaddolion</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Matthew Clarke, Rheolwr Trethi a Buddsoddiadau (COU2425-068).

NODWYD

1. Bod yr adroddiad yn amlinellu manylion gwaddolion newydd dros y cyfnod.

2. Nododd y Pwyllgor Buddsoddiadau fod buddsoddiadau'n tanberfformio ychydig yn ôl y cynllun. Ar ôl tynnu arian parod, mae cronfa’r buddsoddiadau’n llai, ac mae balans yr asedau yn llai na’r hyn a nodwyd yn y strategaeth fuddsoddi.

3. Ar hyn o bryd mae gorddibyniaeth ar ecwitïau, gyda lefel ychydig uwch o risg yn y tymor byr.

4. Mae disgwyl i Quantum gyflwyno fersiwn wedi’i ddiwygio rywfaint o'r strategaeth fuddsoddi er mwyn adlewyrchu maint y gronfa asedau.

**PENDERFYNWYD**

5. Nodwyd yr adroddiad gan yr aelodau

8. <u>Benthyca o waddolion</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Matthew Clarke, Rheolwr Trethi a Buddsoddiadau (COU2425-069).

NODWYD

1. Bu trafodaethau yn y Pwyllgor Buddsoddi ynglŷn â rhwymedigaethau'r Brifysgol o dan y Ddeddf Elusennau, o gofio y bydd y Brifysgol yn gweithredu fel rhoddwr yn ogystal â derbyniwr benthyciadau.

2. Cysylltodd y Brifysgol â'i chynghorwyr buddsoddi, Quantum Advisory Services, i fodelu amryw sefyllfaoedd ad-dalu posib ar gyfer y £6m a fenthycwyd, ac i dynnu sylw at sut y byddent yn effeithio ar y swm a fydd yn cael ei ad-dalu ac ar werth y cronfeydd yn y dyfodol.

3. Mae cefnogi cynaliadwyedd y Brifysgol trwy gael benthyciad yn cyd-fynd ag egwyddorion gwreiddiol y gwaddolion. Nid oedd y pwyllgor am gyfyngu ar y Brifysgol ac felly roedd hi’n hanfodol cynnig hyblygrwydd o ran ad-daliadau.

4. Nododd yr Aelodau fod ystyriaeth fanwl wedi’i rhoi ynghylch pa waddolion i’w hystyried ac fe’u sicrhawyd bod y gwaddolion cywir wedi'u dewis.

5. Mae opsiwn ad-dalu llinol yn fforddiadwy heb osod baich ar genedlaethau'r dyfodol na pheryglu sefyllfa ariannol y Brifysgol yn y tymor byr.

6. Nododd yr Aelodau mor bwysig yw cael dogfennaeth briodol, o safbwynt yr Ymddiriedolwyr a'r Brifysgol fel ei gilydd. Byddai'r ddogfennaeth hefyd yn elfen ragweithiol a fyddai'n fuddiol i’r rhoddwyr benthyciadau, ac yn darparu sicrwydd ac eglurder ar y telerau.

7. Gofynnodd aelodau pwy ddylai fonitro'r benthyca a'r ad-daliadau, o ystyried yr elfen sylweddol o orgyffwrdd â chyfrifoldebau’r Pwyllgor Adnoddau a

Pherfformiad. **[GWEITHREDU:** Bydd Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg yn trafod â'r Prif Swyddog Ariannol p'un ai'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad ynteu'r Pwyllgor Buddsoddi yw'r mwyaf priodol i fonitro ad-daliadau]. Bydd y sefyllfa ariannol yn cael ei datgelu yn y Cyfrifon Blynyddol.

**PENDERFYNWYD**

8. Cymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Buddsoddi, sef tymor ad-dalu 20 mlynedd drwy ad-daliadau benthyciad sefydlog llinol.

9. Gofyn i Weithrediaeth y Brifysgol ddrafftio cytundeb ar y lefel briodol a fydd yn cynnwys telerau gweithredu, gan gynnwys opsiynau ad-dalu'n gynnar [**GWEITHREDU**: Y Prif Swyddog Ariannol ac Ysgrifennydd y Brifysgol].

9. <u>Adroddiadau Tryloyw ar Incwm a Gwariant</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Matthew Clarke, Rheolwr Trethi a Buddsoddiadau (COU2425-070).

**PENDERFYNWYD**

Nodwyd yr adroddiad gan yr aelodau.

**42. YR HEN GOLEG**

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Athro Anwen Jones, Dirprwy Is-Ganghellor; a Jim O'Rourke, Rheolwr Prosiect yr Hen Goleg (COU2425-071)

NODWYD

1. Nododd yr aelodau'r cynnydd da a wnaed ar y gwaith adeiladu hyd yn hyn, a'r heriau sy'n wynebu Andrew Scott mewn sawl man ar y safle yn ystod misoedd y gaeaf.

2. Yr her fwyaf ar hyn o bryd yw datrys y bwlch cyllido sy'n deillio o'r tebygolrwydd o gael costau ychwanegol i bedair elfen sy'n seiliedig ar y gwaith adeiladu: tynnu paent - oherwydd bod y paent a ddefnyddiwyd yn y gorffennol yn anaddas i waliau plastr calch; costau nenfydau'n cynyddu'n sylweddol, yn enwedig y deunydd acwstig i'r nenfwd; y disgwyliad y bydd y rhaglen yn ymestyn hyd at ddiwedd haf 2026; ac ansicrwydd ynghylch costau peirianneg a thrydannol, er bod camau y gellir eu cymryd i liniaru'r risg hon.

3. Croesawodd yr aelodau'r cyllid ychwanegol a dderbyniwyd, gan gynnwys dau grant o Gronfa Adfywio Llywodraeth Cymru a £50K gan sefydliad Garfield Weston. Mae gwaith sylweddol yn dal i fynd rhagddo gyda darpar roddwyr eraill. Dywedodd yr aelodau bod angen ystyried cynlluniau wrth gefn priodol, o safbwynt cyllid, rhag ofn na chyrhaeddir y targedau neu fod costau annisgwyl yn codi.

4. Nododd yr aelodau y strategaeth hepgor gwaith yn yr adroddiad, sy'n nodi'r fethodoleg ar gyfer ymdrin â bylchau cyllido posib lle bo angen.

5. Cafwyd gwasanaethau ymgynghorydd erbyn hyn ac mae wedi llwyddo i ddod â rhai darpar bartneriaid masnachol i'r safle. Nododd yr aelodau fod yn rhaid cydnabod bod risg o beidio â dod o hyd i'r partner masnachol cywir. Nodwyd hefyd ei bod hi'n bwysig nad yw'r Brifysgol yn mynd ar goll yn stori a chyhoeddusrwydd y partner masnachol.

6. Mae angen pennu 'gogwydd' academaidd yr Hen Goleg ar y cam cywir. Ar hyn o bryd nid yw'r adeilad wedi'i gynllunio ar gyfer cyswllt uniongyrchol â'r myfyrwyr, ond nodwyd bod y cyfleusterau cychwyn busnes yn gyfle o ran denu myfyrwyr.

7. Nodwyd y bydd yr agoriad a'r lansiad yn digwydd fesul cam. Hyd at Nadolig 2024, bu'r trafodaethau yn ymwneud â'r adeilad ei hun a'r gwaith adeiladu yn bennaf. Roedd yr aelodau yn falch o nodi bod y trafodaethau wedi symud, ers y flwyddyn newydd, i'r fframwaith ar gyfer agweddau mwy gweithredol.

8. Mae gwaith y grŵp gweithredol yn cyflymu, ac mae hynny'n gysylltiedig yn rhannol â'r rhyngweithio â'r Brifysgol a'i gwasanaethau. Ni all y grŵp weithredu a goruchwylio'r holl elfennau gweithredol, felly bydd angen i hynny gael ei ddatblygu a'i symud ymlaen ar wahân.

9. Nododd yr aelodau rôl hanfodol Cyfarwyddwr yr Hen Goleg a Chanolfan y Celfyddydau, a phwysigrwydd diffinio hyd a lled y rôl.

10. Gofynnodd yr aelodau a fyddai'n bosib symud ymlaen ag elfennau gweithredol yr Hen Goleg yng ngoleuni'r adolygiad ar y gwasanaethau proffesiynol. Nododd yr Aelodau ei bod hi'n bwysig bod y Cyngor yn cael gwybod am gynnydd y gwaith ac a yw'r cerrig milltir allweddol yn cael eu cyflawni. Trafododd yr aelodau'r posibilrwydd o gynnal sesiwn gwybodaeth ym mis Mai i ddeall y weledigaeth ar gyfer yr Hen Goleg yng nghyd-destun strategaeth a chynlluniau'r Brifysgol [**GWEITHREDU**: Dirprwy Is-Ganghellor, Addysg a Phrofiad y Myfyrwyr]

**PENDERFYNWYD**

11. Nodwyd yr adroddiad gan yr aelodau

**43. MATERION LLYWODRAETHU**

1. <u>Llywodraethu a Goruchwylio'r Rhaglen Drawsnewid</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Gwawr Taylor, <u>Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg</u> (COU2425-072).

NODWYD

1. Mae cynnydd rhagorol wedi'i wneud ar y prosiectau mawr. Mae rhai prosiectau bellach wedi symud i fusnes fel arfer.

2. Cynigiwyd y dylid dirprwyo goruchwyliaeth ar y Rhaglen Drawsnewid i'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd, a fydd yn adolygu'r cynnydd ym mhob cyfarfod, ac yn rhoi gwybod i'r Cyngor am unrhyw faterion sy'n codi, yn ôl yr angen.

**PENDERFYNWYD**

3. Cymeradwyodd yr Aelodau ddirprwyo’r gwaith adolygu ar gynnydd y Rhaglen Drawsnewid i'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd, i'w gynnwys yn eitem sefydlog ar agenda'r pwyllgor.

2. Adolygiad ar lywodraethu ac argymhellion

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Julie Archer, Pennaeth Llywodraethu Dros Dro; a Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg (COU2425-073).

NODWYD

1. Tynnwyd sylw’r Cyngor at y gwaith sy’n mynd rhagddo ar y gofrestr risg. Trafododd yr aelodau ai fframwaith sicrwydd y bwrdd fyddai’r dull mwyaf priodol o weithredu. Cytunwyd y dylid ymgorffori sicrwydd trwy sicrwydd risg a thrwy'r dangosyddion perfformiad allweddol sy'n gysylltiedig â chynlluniau'r Brifysgol.

2. Trafodwyd y Senedd a llywodraethu academaidd. Nodwyd bod gwaith yn mynd rhagddo yn y maes hwn, gan gynnwys adolygiad ar aelodaeth y Senedd Er mwyn sicrhau mwy o sylw i’r eitemau sydd wedi’u ystyried gan y Senedd, awgrymodd aelodau y gallai'r rhain gael eu cofnodi yn adroddiad yr Is-Ganghellor i'r Cyngor.

**PENDERFYNWYD**

3. Derbyniwyd yr holl argymhellion, ar wahân i'r argymhellion ynghylch Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Byddai'r cynllun gweithredu yn cael ei fonitro trwy’r Pwyllgor Llywodraethu a Diwylliant, a bydd amserlen y cytunir arni ar gyfer ei roi ar waith yn cael ei thrafod yn yr haf. **[GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg].

4. Byddai'r eitem gyntaf ar yr agenda, ar ôl adroddiad yr Is-Ganghellor yn cael ei rhoi am yn ail â materion ariannol, er mwyn sicrhau bod yr Aelodau yn clustnodi digon o amser a sylw i bob maes o waith y Brifysgol.

3. Adroddiad ar aelodaeth y Cyngor a'i is-bwyllgorau

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg (COU2425-074).

NODWYD

1. Mae angen newid Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd dros dro oherwydd bod y Cadeirydd presennol yn dymuno camu’n ôl o’r swydd am gyfnod byr.

2. Yn ôl Cod Rheoli Ariannol CCAUC na ddylai aelodau'r pwyllgor archwilio fod yn aelodau o bwyllgor cyllid (neu’r pwyllgor cyfatebol) yn yr un sefydliad, oni bai bod y corff llywodraethu o’r farn bod croesgynrychiolaeth yn hanfodol. Rhaid i unrhyw groesgynrychioli o'r fath beidio â chynnwys cadeirydd y naill bwyllgor na’r llall, na chadeirydd y corff llywodraethu. Yn y gorffennol mae'r Cyngor wedi

cytuno bod croesgynrychioli yn ddefnyddiol a bod y gwrthdaro buddiannau posib yn cael ei nodi ym mhob cyfarfod o bob pwyllgor.

**PENDERFYNWYD**

3. Cymeradwyo penodiad Arwel Thomas yn Gadeirydd Dros Dro ar y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd, a hynny'n weithredol ar unwaith, tan 31 Gorffennaf 2025

4. Yng ngoleuni'r penodiad dros dro i swydd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd, cymeradwyo penodiad Daniel Richard i'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad i gyflawni'r rôl drawsgynrychioli yn absenoldeb Arwel, a hynny yn ogystal â'i aelodaeth ar y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd.

5. Cytuno y bydd Arwel Thomas yn camu'n ôl o'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad tra bydd yn Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd, yn unol â'r Cod Rheoli Ariannol.

6. Bod Jane Usherwood yn aelod a enwebwyd gan y Cyngor o ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn ac Aswiriant Prifysgol Aberystwyth (CPAPA) o 1 Awst 2025. Mae'r Cyngor hefyd yn cymeradwyo defnyddio Sêl y Brifysgol yn ôl yr angen i ffurfioli'r aelodaeth, yn amodol ar gymeradwyaeth gan fwrdd Ymddiriedolwyr CPAPA.

4. <u>Dirprwy Gangellorion</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg (COU2425-075).

NODWYD

1. Fel y nodir yn Ordinhad 2: Y Canghellor a'r Dirprwy Gangellorion, bydd tymor swydd Dirprwy Ganghellor yn para am dair blynedd, a dim ond cyfanswm o ddau dymor y caiff eu gwasanaethu.

2. Penodwyd y Gwir Anrhydeddus Elfyn Llwyd LLB, ym mis Awst 2021, ac mae ar dir i'w ailbenodi am un tymor pellach.

3. Penodwyd yr Athro Fonesig Elan Closs Stephens ym mis Ionawr 2020 ac mae wedi gwasanaethu am ddau dymor yn y swydd. Daw ei thymor presennol i ben ar 31 Rhagfyr 2025.

**PENDERFYNWYD**

4. Cymeradwyo argymhelliad y Pwyllgor Dethol y dylid ailbenodi'r Gwir Anrhydeddus Elfyn Llwyd LLB am ail dymor, o 1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2028.

5. Cymeradwyo sefydlu, yn unol â'r Ordinhad, bwyllgor penodi i ymgymryd â'r broses i ddod o hyd i ail Ddirprwy Ganghellor o 1 Ionawr 2025 ymlaen.

5. <u>Adroddiad ar Gydymffurfio â Chod Ymarfer Undeb y Myfyrwyr</u>

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dr Gwawr Taylor, Ysgrifennydd y Brifysgol a Chyfarwyddwr y Gymraeg (COU2425-076).

NODWYD

1. Mae'r adroddiad yn cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am gydymffurfiaeth y Brifysgol a'r Undeb â'r Cod Ymarfer yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

2. Lluniwyd yr adroddiad gan ddefnyddio dull gwaith desg ac mae'n cynnwys rhai camau sydd heb eu cwblhau, sy'n cael eu rhoi ar waith gan Swyddog Gweithredol Undeb y Myfyrwyr .

**PENDERFYNWYD**

3. Nodwyd yr adroddiad gan yr aelodau

6. Adroddiad Blynyddol ar Gwynion gan y Cyhoedd

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor (COU2425-077).

**PENDERFYNWYD**

1. Nodwyd yr adroddiad gan yr aelodau

7. Dogfennau wedi'u selio â'r Sêl Gyffredin.

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Helen Davies, Swyddog Llywodraethu (COU2425-078).

**PENDERFYNWYD**

1. Nodwyd yr adroddiad gan yr aelodau

8. Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Dylan Jones, Rheolwr Amrywioldeb a Chynhwysiant (COU2425-079).

NODWYD

1. Craffwyd ar yr adroddiad yn fanwl yn y Pwyllgor Llywodraethu a Diwylliant a chynhwyswyd rhai manylion ychwanegol a materion yr oedd angen eglurhad arnynt, cyn ei gyflwyno'n derfynol i'r Cyngor.

2. Nododd yr Aelodau fod gwahanol bwyllgorau yn wahanol iawn o ran eu cyfansoddiad rhyweddol a dylid monitro hyn dros amser.

3. Diolchwyd a llongyfarchwyd i'r Rheolwr Amrywioldeb a Chynhwysiant ar ansawdd yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD**

4. Cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol i'w gyhoeddi ar wefan y Brifysgol

9. Diweddariad ar Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Claire Williams, Rheolwr Iechyd, Diogelwch a’r Amgylchedd (COU2425-080).

NODWYD

1. Sylwadau’r Pwyllgor Llywodraethu a Diwylliant ynghylch natur ymatebol y ffordd o weithio y mae’r Brifysgol yn ei harddel ar hyn o bryd. Hysbyswyd y Pwyllgor a'r Cyngor bod hyn wedi'i nodi a'i fod yn cael ei ystyried ar hyn o bryd. Mae'r tîm ar hyn o bryd yn adolygu eu harferion gwaith ac yn ystyried ffyrdd o fynd ati’n rhagweithiol i fonitro cydymffurfiaeth, ochr yn ochr â'u hadroddiadau ymchwiliol presennol.

2. Mae archwiliad mewnol o gydymffurfiaeth â materion Iechyd, Diogelwch a’r Amgylchedd ar y gweill ar hyn o bryd ac mae'n debygol y bydd adroddiad yn cael ei wneud i’r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd ym mis Mehefin.

**PENDERFYNWYD**

3. Nodwyd yr adroddiad gan yr aelodau

**44. ADRODDIADAU GAN YR IS-BWYLLGORAU**

**Nodwyd**

Nododd cadeiryddion y Pwyllgorau fod y prif faterion wedi cael eu trafod a'u hystyried yn ystod y cyfarfod.

**45. UNRHYW FATER ARALL, AROLWG O'R CYFARFOD, A MATERION YN Y DYFODOL**

1. Llongyfarchodd y Cadeirydd, ar ran y Cyngor, Sharon Lilley ar ei phenodiad i rôl Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol.

2. Diolchwyd i'r Is-Ganghellor a'r staff am eu gwaith.